YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Y CORFF LLYWODRAETHOL
THE GOVERNING BODY

# Governing Body membership – Background Information

## Role of the Governing Body

The Governing Body is the supreme legislature of the Church in Wales, broadly speaking the Parliament of the Church in Wales.

The Governing Body is responsible for decisions that affect the Church's Faith, Order and Worship. It also has powers to make regulations 'for the general management and good government of the Church and the property and affairs thereof.' (From Chapter II Section 35 of the Constitution of the Church in Wales.

## Membership eligibility

Any cleric who holds or has held –

- a dignity;
- a cathedral preferment;
- a benefice or other office within the Church in Wales;
- a licence from a Welsh Diocesan Bishop.

Every lay communicant over 18 and under 75 years of age who –

- either resides or has resided for a period of 12 months in a Church in Wales parish;
- or whose name appears on the electoral roll of any parish in Wales;
- does not belong to a religious body not in communion with the Church in Wales.

Clergy or laity who are in the full-time salaried employment of the Representative Body, Diocesan Boards of Finance or any other provincial or diocesan body within the Church in Wales or who have been so for the preceding 12 months are not eligible for membership of the Governing Body or any committee or sub-committee thereof.

## Commitment

Members serve for a three year period of election or co-option initially.

The Governing Body must meet once a year; in practice, it usually meets twice. Meetings generally last just over 24 hours, from lunchtime on Day 1 to the afternoon of Day 2. The meetings have been held in Lampeter and Llandudno in recent years. If a member is elected to the Standing Committee, it meets three times a year on-line or in

Cardiff, and its Sub-committees meet up to three times a year, online or in Cardiff or when members are already gathered.

## Expertise

Governing Body business covers a very wide agenda ranging from the governance of the Church, liturgy & doctrine, to issues of social concern. As such the Governing Body needs members with a wide range of interests. In order for the Governing Body to represent the views of the Church as a whole it is important that members can reflect views of their local churches as well as reporting back to them on the work of the Governing Body.

## Expenses

Accommodation and meals are provided at meetings and reasonable travel costs are reimbursed.

For any more information on any aspect of the Governing Body, please telephone John Richfield on (029) 20 348200 or email johnrichfield@churchinwales.org.uk

Y Corff Llywodraethol yw prif ddeddfwrfa'r Eglwys yng Nghymru, sef Senedd yr Eglwys yng Nghymru yn fras.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n effeithio ar Ffydd, Trefn ac Addoliad yr Eglwys trwy wneud newidiadau i'r ddogfen sy'n llywodraethu'r Eglwys, sef y Cyfansoddiad. Mae ganddo hefyd y gallu i wneud rheolau "ar gyfer rheoli'r Eglwys yn gyffredinol a'i llywodraethu'n dda, ac ar gyfer ei heiddo a'i negesau" (o Bennod II Adran 12 Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru).

## Cymhwystra aelodaeth

Unrhyw glerig sy'n dal neu sydd wedi dal –

- anrhydedd;
- uwch-swydd mewn cadeirlan;
- bywoliaeth neu swydd arall o fewn yr Eglwys yng Nghymru;
- trwydded gan Esgob Esgobaethol yng Nghymru.

Unrhyw gymunwr lleyg dros 18 mlwydd oed a than 75 mlwydd oed sydd –

- yn preswylio, neu wedi preswylio am gyfnod o 12 mis, yn un o blwyfi 'r Eglwys yng Nghymru;
- neu y mae ei enw'n ymddangos ar gofrestr etholiadol unrhyw blwyf yng Nghymru;

- nad yw'n perthyn i gorff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru.

Nid yw clerigion neu leygion sydd wedi’u cyflogi’n llawn amser gan Gorff y Cynrychiolwyr, Byrddau Cyllid Esgobaethau neu unrhyw gorff taleithiol neu esgobaethol arall o fewn yr Eglwys yng Nghymru neu sydd wedi bod felly am y 12 mis blaenorol yn gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol nac o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor.

## Ymrwymiad

Mae'r Aelodau'n gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd o gael eu hethol neu eu cyfethol i ddechrau.

Rhaid i'r Corff Llywodraethol u gyfarfod unwaith y flwyddyn; yn ymarferol, mae fel arfer yn cyfarfod ddwywaith. Yn gyffredinol, mae'r cyfarfodydd yn para ychydig dros 24 awr, o amser cinio ar Ddiwrnod 1 i brynhawn Diwrnod 2. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn Llanbedr Pont Steffan a Llandudno yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Os caiff aelod ei ethol i'r Pwyllgor Sefydlog, mae'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ar-lein neu yng Nghaerdydd, ac mae ei Is-bwyllgorau'n cyfarfod hyd at deirgwaith y flwyddyn, ar-lein neu yng Nghaerdydd neu pan fydd aelodau eisoes wedi ymgynnull.

## Arbenigedd

Mae busnes y Corff Llywodraethol yn cwmpasu agenda eang iawn sy'n amrywio o lywodraethu'r Eglwys, litwrgi ac athrawiaeth, i faterion sy'n bryder cymdeithasol. O'r herwydd, mae’r Corff Llywodraethol angen aelodau sydd ag ystod eang o ddiddordebau. Er mwyn i'r Corff Llywodraethol gynrychioli barn yr Eglwys yn ei chyfanrwydd mae'n bwysig bod aelodau'n gallu adlewyrchu barn eu heglwysi lleol yn ogystal ag adrodd yn ôl iddynt ar waith y Corff Llywodraethol.

## Treuliau

Darperir llety a phrydau bwyd mewn cyfarfodydd a rhoddir ad-daliad rhesymol am gostau teithio.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y Corff Llywodraethol, ffoniwch John Richfield ar (029) 20 348200 neu e-bostiwch johnrichfield@churchinwales.org.uk